

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth y 8ed o Ebrill 2014.

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr Dafydd Glyn Owen (Cadair), Harry Wyn Owen – Talysarn; Elwyn Jones Griffith, Iwan Lloyd Williams, Ifan Glyn Jones, Menna Williams, Barry Bracegirdle – Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Eurig W Evans – Nebo.

Gwahoddwyd Carol Williams o'r Cyngor Iechyd Cymuned i'r cyfarfod a thrafodwyd diffyg yn y gwasanaeth iechyd, a diffyg meddygon Cymraeg yn yr ardal. Dywedodd Carol ei bod yn anodd cael unrhyw feddygon newydd yn gyffredinol, ac yn anoddach fyth cael meddygon Cymraeg. Dywedodd bod angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am wasanaeth y Cyngor Iechyd Cymuned, gan bod mwy o leisiau efo'i gilydd yn cael mwy o ddylanwad na ychydig o leisiau bach o wahanol lefydd. Dywedodd mai rol y Bwrdd Iechyd yw sicrhau gwasanaeth iechyd i drigolion. Penderfynwyd ysgrifennu at y meddygon lleol i ofyn beth yw'r polisiau sydd ganddynt mewn lle i helpu pobl sydd ag anhawster i gyfathrebu yn y Saesneg, yn enwedig trigolion oedranus.

Cynllunio.

- *Glasfryn, Nebo – dymchwel polytunnel presennol a chodi sied dur. Cymeradwyo.
- *Cae Du Isaf, Llanllyfni – dymchwel estyniad lean-to presennol a chodi estyniad ochr deulawr. Cymeradwyo.
- *Bryn Neuadd, Ffordd Clynnog, Penygroes – estyniad unllawr a chreu balcony. Cymeradwyo.
- *Tan Drwfwl, Nasareth – estyniad cefn deulawr i'r ty presennol er mwyn creu anecs (diwygiad o gynllun a ganiatawyd). Cymeradwyo.
- *5Tai Nantlle – dymchwel rhan o estyniad unllawr a chodi estyniad llawr cyntaf. Cymeradwyo.
- *Ty Capel Salem, Llanllyfni – newid defnydd festri i dy annedd cynlluniau diwygiedig. Cymeradwyo.

Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

- *Ymatebion i gwynion/ymholiadau. Byddwn yn ysgrifennu eto i holi am y goleuadau traffic ym Mhenygroes.
- *Anghenion Tai – bydd cyfle i yrru tystiolaeth gadarn i Gyngor Gwynedd erbyn y 30/6. Mae'r Cyngor Cymuned yn rhedeg arolwg tai ar hyn o bryd.

Gwefan Cafwyd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd fod ein cais am arian grant wedi ei gymeradwyo i'r Cyngor Cymuned sefydlu gwefan.

Materion Pentrefi.

Penygroes Llinellau dwbl Hen Lon – trafferthion yn parhau efo mynedfa i'r tai. Pryder fod defnydd o'r giat sy'n mynd i gae'r ysgol yn broblem, ac y gall arwain at ddamwain. Byddwn yn trefnu cyfarfod safle; Goleuadau traffic – y Cyngor yn bryderus nad yw'r goleuadau wedi eu ais-leoli; Y Cyngor ar ddeall fod penderfyniad i gau Banc yr HSBC ym Mhenygroes – byddwn yn trefnu cyfarfod brys i drafod ymhellach. Gofynwyd i'r Cynghorwyr hysbysu a gwahodd busnesau lleol i ddod i'r cyfarfod, a Dyfed Edwards i gadeirio.

Nebo Byddwn yn cysylltu eto gyda Gyngor Gwynedd i ofyn am ymateb i'r gwyn am ddwr o gyli yn Nebo yn llifo drwy gwt.

Llanllyfni Bocs graean wedi ei osod ar bwys yr Eglwys, ac yn y ffordd petai hers neu gar priodas angen mynediad. Byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd ei ail-leoli.